



Llawn blodau ...

Mae Gerddi Coffa'r Rhyl yn llawn blodau ar ôl cael eu tacluso ar gyfer yr haf.

Mae gerddi glan y môr, lle ar gyfer myfyrdod i lawer o bobl yn y dref, wedi eu peintio, eu plannu a'u trwsio.

Trefnodd Cyngor Tref y Rhyl bod y gerddi yn cael eu tacluso, gan beintio'r gwaith haearn ac adnewyddu paneli a oedd wedi eu torri.

Meddai Dirprwy Glerc y Dref Helen Windus: "Mae'r gerddi yn ganolbwynt yn y Rhyl, yn cynnig lle i bobl fynd i feddwl a rhoi diolch i'r sawl a wnasanaethodd, sy'n dal i wasanaethu, i'n hamddiffyn ni. Mae'r gwaith wedi gwneud gwahaniaeth mawr; ynghyd â'r blodau hyfryd a blannwyd, mae'r gerddi ar eu gorau unwaith eto."

Diolchodd y cyngor tref i gydgyssylltydd lleol y Lleng Brydeinig Frenhinol Richard Kendrick am gadw llygad ar y gerddi.

